Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg

19 Tachwedd 2019

Annwyl Kirsty

**Addysg ddewisol yn y cartref**

Yn ein cyfarfod ar **14 Tachwedd 2019**, nododd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ohebiaeth a gafodd yr Aelodau ynghylch **Ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru ar ganllawiau ar addysg yn y cartref yng Nghymru**.

Yn sgil yr ohebiaeth hon, ysgrifennaf i:

- geisio eglurhad ar y pwyntiau cyfreithiol a godwyd ynghylch y sail y gellid gwneud canllawiau arfaethedig (atodir yr ohebiaeth berthnasol);
- ofyn am fanylion am ba weithdrefn (os o gwbl) y Cynulliad a/neu broses ymgynghori y bydd y fersiynau terfynol o'r canlynol yn ddarostyngedig iddynt, ac amserlenni cysylltiedig ar gyfer pob un:
  - addysg yn y cartref: canllawiau statudol awdurdodau lleol a llawlyfr i addysgwyr cartref;
  - rheoliadau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i: awdurdodau lleol gynnal a phoblogi cronfa ddata o blant o oedran ysgol orfodol yn eu hardal i'w helpu i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt; byrddau iechyd lleol ddatgelu i awdurdodau lleol wybodaeth anfeddygol er mwyn helpu'r awdurdod i adnabod plant yn eu hardal; ysgolion annibynnol ddatgelu i awdurdod lleol wybodaeth am ddysgwyr yn yr ysgol annibynnol.

Fel y gwyddoch o'r llythyrau a gyhoeddwyd gennym dros y flwyddyn ddiwethaf (a restrir yn yr atodiad i'r llythyr hwn), rydym wedi cynnal diddordeb gweithredol mewn addysg ddewisol yn y cartref. Fel rhan o'r cyfnewidiadau hyn, rydym wedi nodi'n glir ein cred bod

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

angen gweithredu i sicrhau bod plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn cael eu gweld ac y cynhelir sgwrs â hwy am yr addysg y maent yn ei derbyn, a'u bod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel, a hoffem ailadrodd y safbwyntiau hyn ar y cam hwn.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

Copi at: Comisiynydd Plant Cymru

**<u>ATODIAD</u> - Gohebiaeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ymwneud ag addysg ddewisol yn y cartref**

- 09 Tachwedd 2018 - Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru at y Prif Weinidog - Addysg yn y Cartref
- **20 Tachwedd 2018 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gomisiynydd Plant Cymru**
- **26 Tachwedd 2018 - Llythyr gan y Cadeirydd at Gomisiynydd Plant Cymru**
- **12 Rhagfyr 2018 - Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru at y Cadeirydd**
- 16 Ionawr 2019 – Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru at y Cadeirydd
- 19 Mehefin 2019 – Llythyr gan y Cadeirydd at Gomisiynydd Plant Cymru
- 19 Mehefin 2019 – Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Addysg
- 05 Gorffennaf 2019 – Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru at y Cadeirydd
- 11 Gorffennaf 2019 – Llythyr gan y Gweinidog Addysg at y Cadeirydd